

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**  
**Hybysiad Preifatrwydd**  
**GWASANAETH MYNEDIAD AT SEICOLEG ADDYSG A**  
**CHYHNWYSIANT**

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau GDPR a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**Tîm Llywodraethu Gwybodaeth**

**Lisa Richards** – Swyddog Diogelu Data

**Sam Bishop** – Swyddog Datgelu a Chofnodi Data

**Rebecca Walsh** - Swyddog Datgelu a Chofnodi Data  
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,  
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk , 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Dyddiad crëwyd:	25 May 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Adran Addysg
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Sarah Bowen
Cyfeiriad:	Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu data personol pan fydd person ifanc yn derbyn cefnogaeth oddi wrth y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant sydd yn rhan o Wasanaethau Addysg y Cyngor.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol a gesglir gennym. O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae'n ofynnol ein bod yn eich hysbysu chi am y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosibl y byddwn yn diweddarar'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg; os byddwn yn gwneud hynny byddwn yn sicrhau fod copi wedi ei ddiweddarar o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am ein prosesu data a gellir cael mynediad ato ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut mae'r Gwasanaeth yn gweithio â phlant a phobl ifanc pan fo angen canllawiau a chefnogaeth bellach ar ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn cefnogi cynnydd. Mae'n bosibl y bydd y plant a'r bobl ifanc yn profi anawsterau â dysgu, cyfeillgarwch, canolbwyntio, presenoldeb, dilyn rheolau neu ymdopi â meddyliau neu deimladau anodd.

## **1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Yn yr hysbysiad hwn pan fyddwn yn cyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant sy'n gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn dyfod yn glir i chi wrth i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i blant a phobl ifanc y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant sy'n preswyllo ym Merthyr Tudful ac sydd o oedran ysgol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r Swyddog â'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN  
E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk  
Ffôn: 01685 725000

## **2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI**

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

Gwybodaeth bersonol fel enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, dyddiad geni, rhyw, delweddau, recordiadau fideo a sain, cofnodion digidol ac ar bapur sy'n cefnogi ein gwaith gyda chi.

Gwybodaeth addysgiadol fel rhesymau dros (megis pryderon ynghylch dysgu, meysydd sy'n gofyn am gefnogaeth a newid) asesu a chynllunio gwybodaeth (megis manylion pellach am rwystrau i ddysgu, cryfderau ac anghenion, ymyraethau a'r camau nesaf i gefnogi deilliannau)

Data ffordd o fyw fel ethnigrwydd a chrefydd

Gwybodaeth feddygol a allai gynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch iechyd corfforol neu iechyd meddwl

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data hwn amdanoch chi yn adran 3 yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

## **3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL**

Rydym yn cael gwybodaeth bersonol amdanoch chi oddi wrth ymglymiad presennol a blaenorol â sefydliadau eraill (fel meddyg teulu, therapydd iaith a lleferydd, athro, gweithiwr cymdeithasol) neu oddi wrth ysgolion a gwybodaeth lleoliad arall (fel gwybodaeth am bresenoldeb a gwaharddiad, cwricwlwm cenedlaethol a chyrhaeddiad arholiad a chynnydd) gallwn hefyd gael gwybodaeth am eich cysylltiad ag adrannau eraill, fel ein Hadran Gwasanaethau Plant, Darpariaeth Dechrau'n Deg, Adran Addysg ac o'n cofnodion presennol.

Dim ond pan fydd deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn defnyddio'ch data personol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaethau a osodwyd o dan Reoliadau GDPR a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2019. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Pan fyddwn wedi derbyn eich caniatâd i ddarparu ymyrraeth benodol i chi pan nad yw unrhyw sail gyfreithiol arall yn briodol.

Pan fydd angen i ni gydymffurfio ag oblygiad cyfreithiol fel gorchymyn llys neu yn unol â'ch Datganiad o Anghenion Addysgiadol neu Gynllun Anghenion Ychwanegol.

Rydym yn casglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gyflawni tasgau er budd y cyhoedd neu os oes angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol o gategori arbennig, rydym yn dibynnu ar resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd i sicrhau eich bod yn derbyn cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn prosesu eich data personol ble y bo'n angenrheidiol i'n buddion cyfreithiol (neu rai trydydd parti) a'ch buddion chi ac nad yw hawliau sylfaenol yn drech na'r buddion hynny.

#### **4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL**

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol gyda'r Adran Addysg er mwyn eich darparu â'r gefnogaeth sy'n ofynnol gennych; byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ag adrannau eraill y Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn un a rennir â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT). Mae'r Adran yn gweithio ochr yn ochr â CBSRhCT i wella deilliannau i blant a phobl ifanc. Er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth hwn mae'n ofynnol ein bod ni'n rhannu'r wybodaeth ar draws ein hawdurdodau lleol. Yn ychwanegol at hyn gallwn hefyd rannu eich data personol gyda'n darparwyr gwasanaethau gomisiynwyd (megis Gwasanaeth Seicoleg Plant Cwm Taf), eich ysgol/ lleoliad a goruchwylwyr (y tu fewn i'r Adran ac yn allanol iddi) ar gyfer ymarfer proffesiynol.

Gellir hefyd cael achlysuron pan fydd yn ofynnol i ni rannu eich data personol gyda thrydydd parti allanol a allai gynnwys:

Sefydliadau partner fel meddygon, meddygon plant, therapyddion iechyd a gweithwyr iechyd meddwl.

Hyb Diogelu Aml Asiantaethol Cwm Taf (a elwir yn MASH) os oes unrhyw bryderon gennym ynghylch eich diogelwch neu ddiogelwch eraill o'ch cwmpas.

Gallwn hefyd rannu gwybodaeth bersonol â gorfodi cyfreithiol neu awdurdodau eraill os yw'n ofynnol yn ôl cyfraith gymwysedig.

Byddwn yn rhannu data dienw, ystadegol a setiau cyflawn o ddata personol o ran y gweithgaredd hwn gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn gwella gofal a chefnogaeth a ddarparwyd i bobl yng Nghymru. Mae'r data hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag ymchwil i helpu i ddeall a gwella ansawdd addysg i blant a phobl ifanc fel y gallant ymgysylltu mewn gwasanaethau i gynnal a datblygu ein hymarfer proffesiynol.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn yn gwneud hynny, yna byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag y bo'n bosibl a gallwch ddisgwyl yr un gyfradd o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

## 5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y'i casglwyd ar eu cyfer yn unig, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd yn ôl. Caiff y wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylir yn yr hysbysiad hwn ei chadw o ddyddiad geni'r plentyn / person ifanc nes iddo gyrraedd 25, ac ar ôl hynny caiff y wybodaeth ei harchifo neu ei dinistrio'n ddiogel.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan ([www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)).

## 6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

### 7.

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu rhag bod mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ddatgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond yn dilyn ein cyfarwyddyd ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol a hynny'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau yn eu lle i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelu a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o dorcyfraith honedig pan fydd yn gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

## 8. HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysrwydd preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2<sup>ll</sup> Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH  
E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)  
Ffôn: 029 2067 8400

## 9. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a gwybodaeth bellach am ein sail gyfreithiol i brosesu, mynnwch weld ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan y Swyddog Comisiynu Gwybodaeth, [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).